## ATODLEN 2

Rheoliad 4(2) a (4)

## SAFONAU YCHWANEGOL CYFLWR AMAETHYDDOL AC AMGYLCHEDDOL DA SY'N GYMWYS MEWN PERTHYNAS Å THIR SYDD WEDI'I NEILLTUO AR GYFER DARPARU CNYDAU DI-FWYD

**Taenu gwrteithiau a gwastraff ar dir sydd wedi'i neilltuo ar gyfer darparu cnydau di-fwyd**

Dim ond ar dir sydd wedi'i neilltuo ar gyfer darparu cnydau di-fwyd y caiff ffermwr daenu gwrtaith neu wastraff cyhyd —

(a) â'i bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn sicrhau bod y cnydau yn tyfu'n iawn; a

(b) â bod dull ei daenu yn gyson â'r Code of Good Agricultural Practice for the Protection of Water a gymeradwywyd o dan Orchymyn Dŵr (Atal Llygredd) (Cod Ymarfer) 1998(**1**).

(**1**) O.S. 1998/3084.